# Cytuno ar a goruchwylio trefniadau ar gyfer sesiynau recordio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwneud trefniadau ar gyfer sesiynau recordio a gofalu eu bod yn rhedeg fel y disgwylir iddyn nhw wneud. Mae'n bwysig gofalu y caiff slotiau amser priodol eu cadw a bod popeth ar gael er mwyn cynnal y sesiynau recordio cychwynnol a dilynol.

Mae hyn yn cynnwys ymateb i gyfarwyddiadau, cytuno ar hyd y sesiynau, y taliadau a'r cyfrifoldebau gan ofalu y cân nhw eu cyflawni, llunio cytundebau a chofnodion o ran trefnu cerddorion, taflenni traciau y sesiynau a'r cyfarpar. Hefyd mynd i'r afael â phroblemau a gwneud trefniadau ar gyfer sesiynau yn y dyfodol.

Mae'r safon hon ar gyfer unrhyw un sy'n gyfrifol am gytuno ar a goruchwylio trefniadau ar gyfer sesiynau recordio ond goruchwylwyr sain mwy na thebyg.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. darparu gwybodaeth briodol fel ymateb i gyfarwyddiadau ac ymholiadau ynghylch sesiynau recordio
2. cytuno ar hyd y sesiynau recordio yn ogystal â'r taliadau amdanyn nhw gyda'r bobl berthnasol
3. cadarnhau bod y lleoliad dan sylw ar gael am y cyfnod o amser rydych wedi cytuno arno
4. cadarnhau bod y cyfarpar priodol ar gael er mwyn bodloni gofynion y sesiwn recordio
5. gofalu eich bod yn trefnu unrhyw berfformwyr ychwanegol gofynnol ar gyfer sesiynau recordio
6. llogi unrhyw gyfarpar arbenigol gofynnol, gan ffynonellau priodol, ar gyfer sesiynau recordio
7. trefnu'r bobl briodol i baratoi a chynnal sesiynau recordio
8. gofalu bod yr holl gytundebau sy'n gysylltiedig â'r sesiynau recordio wedi'u cyflwyno a'u harwyddo cyn cychwyn ar y sesiynau recordio
9.

gofalu fod pawb ynghlwm yn ymwybodol o’r hyn ddisgwylir ganddyn nhw

1. cadw cofnod o sesiynau recordio wedi'u trefnu ynghyd â'r cyfarpar perthnasol a staff ar systemau cyfundrefnol
2. gofalu bod y cyfarpar a'r offerynnau'n bodloni'r gofynion o ran y cynllun a'r gosodiad ar gyfer sesiynau recordio
3. gofalu bod unrhyw ddeunydd archif perthnasol ar gael ac yn barod cyn cychwyn ar y sesiynau recordio
4. monitro cynnydd y sesiynau recordio'n barhaus
5. gofalu eich bod yn cadw cofnodion manwl o'r sesiynau recordio yn unol â'r safonau ansawdd
6. mynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi yn ystod y sesiynau recordio er mwyn gofalu eu bod yn parhau fel y cynlluniwyd
7. cytuno ar fanylion unrhyw sesiynau ychwanegol neu ddilynol gofynnol yn unol â'r gweithdrefnau cyfundrefnol
8.

gofalu y caiff cyfryngau a chynnwys eu harchifo a'u cadw mewn man ble byddan nhw'n yn rhwydd i'w canfod ar gyfer sesiynau yn y dyfodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. beth sydd angen ei gadarnhau a'i drefnu cyn cadw lle
2. sut i ddewis lleoliad i sicrhau bod acwsteg ddymunol yno
3. system cadw lle'r stiwdio neu leoliad a'r amserlen dalu
4. sut i drefnu perfformwyr ychwanegol fel cantorion cefndirol a cherddorion sesiynau (session musicians)
5. lle i ganfod cyfarpar arbenigol a phrosesau i wneud hynny
6. cyfrifon llogi'r mudiad
7. y rolau technegol ynghlwm â gwahanol agweddau sesiynau recordio
8.

y sgiliau a’r prosesau technegol ynghlwm â chynnal sesiwn recordio

1. gofynion cytundebau ar gyfer perfformwyr ychwanegol a staff technegol
2. dulliau cyfathrebu er mwyn cysylltu gyda pherfformwyr, eu rheolwyr a staff technegol
3.

y safonau sydd angen eu cynnal mewn perthynas â chadw cofnodion a rheoli sesiynau recordio

1. problemau cyffredin a all godi yn ystod sesiynau recordio a sut i fynd i'r afael â nhw
2.

cofnodion cyflawn, wedi’u dyddio, o'r holl gyfryngau a chynnwys sydd wedi'u defnyddio mewn sesiynau recordio

1. pwysigrwydd cofnodi a labelu cymysgeddau stereo, wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio deunydd archif, yn gywir
2. dulliau ar gyfer cofnodi cynllun a gosodiad cyfarpar ac offerynnau gan gynnwys lluniau a diagramau
3. y rhesymau dros gofnodi cynllun a gosodiad cyfarpar ac offerynnau a phryd mae hi'n briodol ichi wneud hynny
4. lleoliadau addas i archifo data adalw electronig a chyfeirnod o'r daflen traciau
5. yr wybodaeth ofynnol i gynnal ansawdd a dilyniant y perfformiad rhwng y gwahanol sesiynau recordio

CCSMT2

Cytuno ar a goruchwylio trefniadau ar gyfer sesiynau recordio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative and Cultural Skills |
| **RCU gwreiddiol** | CCSMT43 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Peiriannydd Stiwdio, Rheolwyr Stiwdio, Peirianwyr Meistroli, Peirianwyr Recordio, Cynhyrchwyr Recordio, Peirianwyr Cymysgu, Rhaglenwyr, Peirianwyr Sain |
| **Cyfres/Set** | Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | Sesiynau recordio; Cyfarpar; Perfformwyr; Cynllun; Gosodiad; Sain; Cerddoriaeth; Recordio Sain; Technoleg Cerddoriaeth |